

Prifysgol Aberystwyth – Disgrifiad Rôl

Teitl: Gweithredwr Technegol a Chyfrifiadur 8

CYFATHREBU

(a) Cyfathrebu Llafar

Deall a chyfathrebu gwybodaeth a all fod yn syml neu y gall fod angen ei hesbonio neu ei dehongli er mwyn cynorthwyo pobl eraill i'w deall, yn ogystal â gwybodaeth fwy syml, a bydd angen rhoi ystyriaeth i beth i'w gyfathrebu a sut.

Er enghraifft:

- Cyngori myfyrwyr sut i weithredu cyfarpar er mwyn iddyn nhw ddeall y cymhlethdodau perthnasol
- Cysylltu â darparwyr cyflenwadau a gwasanaethau, cyfleu gofynion yn gywir a dehongli'r atebion
- Trafod gofynion gyda defnyddwyr y gwasanaeth i sicrhau dealltwriaeth o'u gofynion a chyfyngiadau technegol yr hyn a allai fod yn bosibl
- Deall natur prosiectau ymchwil myfyrwyr ac academyddion er mwyn gallu trafod y gofynion a chyfeiriad yr ymchwil
- Cyfleu gwybodaeth cwrs i fyfyrwyr ar sail un i un neu drwy arddangosiadau neu diwtorialau
- Adrodd i bwyllgorau a chyfarfodydd o grwpiau staff

(b) Cyfathrebu Ysgrifenedig

Deall a chyfathrebu gwybodaeth a all fod yn syml neu y gall fod angen ei hesbonio neu ei dehongli er mwyn cynorthwyo pobl eraill i'w deall, yn ogystal â gwybodaeth fwy syml, a bydd angen rhoi ystyriaeth i beth i'w gyfathrebu a sut.

Er enghraifft:

- Cyfathrebu gyda chwsmeriaid neu ddefnyddwyr eraill y cyfleusterau i sicrhau bod eu gofynion yn cael eu deall a'u trin yn effeithiol
- Ysgrifennu adroddiadau, tiwtorialau, profion ymarferol, taflenni addysgu a gweithdrefnau gweithredu safonol
- Paratoi dogfennau tendr neu fanylebau cyfarpar eraill
- Llunio adroddiadau ar sefydlu, gwerthuso, cwyno a disgyblu staff
- Llunio asesiadau risg, datganiadau dull a chodau ymarfer.

GWAITH TÎM A CHYMHELLIANT

Arwain/rheoli/goruchwylio tîm neu brosiect, gan gynnwys gosod gwaith, monitro canlyniadau a darparu adborth i'r tîm a'i aelodau.

Yn aml ymgymryd â rhai dyletswyddau uwch reolwr tîm, sy'n cynnwys gosod amcanion cyffredinol a gwaith y tîm, monitro perfformiad a chanlyniadau a datblygu'r tîm.

Er enghraifft:

- Gosod amcanion, trefnu a dirprwyo gwaith i aelodau'r tîm yn ôl eu sgiliau a'u galluoedd unigol
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o derfynau amser eu gwaith, ail-ddynodi neu aildrefnu gwaith os yw'r blaenoriaethau'n newid
- Annog staff i gydweithio i ddatrys problemau neu os yw'r gwaith yn galw am gyfraniad staff sydd â sgiliau gwahanol
- Cymell staff drwy sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith a'u cynnwys mewn trafodaethau tîm
- Yn aml rheoli prosiectau mawr, gan gynnwys staff ac adnoddau
- Yn aml gosod a monitro amcanion y tîm
- Yn aml monitro cynnydd a chanyniadau gwaith neu brosiectau i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n amserol ac ymdrin ag unrhyw broblemau

CYSWLLT A RHWYDWEITHIO

Cynnal cyswllt gyda staff y tu allan i'r tîm gwaith gan ddefnyddio gweithdrefnau sy'n bodoli er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol i gyflawni nodau cyffredin.

Cyfranogi mewn rhwydweithiau, pwyllgorau neu weithgorau ffurfiol yn fewnol neu allanol er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol i gyflawni nodau cyffredin.

Er enghraifft:

- Creu cysylltiadau gyda staff yr adran i sicrhau bod y gofynion wedi'u deall a bod anghenion addysgu ac ymchwil yn cael eu diwallu, gyda thechnegwyr eraill yn y Brifysgol i drafod materion o bryder neu ofynion gwaith sy'n cyd-daro neu sy'n gyffredin
- Creu cysylltiadau gyda chyflenwyr cyfarpar neu ddarparwyr cynnal a chadw i sicrhau bod y cyfarpar yn addas i'r diben a chadw'n gyfredol gyda datblygiadau technegol
- Cyfranogi mewn pwyllgorau adrannol er enghraifft Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
- Aelodaeth o gymdeithasau allanol sy'n gysylltiedig â'r ddisgyblaeth benodol er enghraifft Technegwyr Theatr Prydain, Fforwm Ebost Cenedlaethol y Technegwyr

CYFLENWI GWASANAETH

Ymchwilio i ofynion y cwsmer ac addasu'r gwasanaeth a ddarperir i sicrhau bod y gofynion hynny'n cael eu diwallu. Gall hefyd gysylltu â chysylltiadau mewnol neu allanol i ddarparu gwasanaeth sy'n dod o fewn y polisiau a'r gweithdrefnau cyfredol.

Er enghraifft:

- Darparu cymorth technegol i staff a myfyrwyr ar bob agwedd o dechnegau cyfarpar neu ddadansoddi, ar adegau ymateb i geisiadau am wasanaeth y gallai fod angen ei addasu
- Pennu'r safonau gwasanaeth angenrheidiol drwy drafod gyda'r defnyddiwr gwasanaeth, ac addasu'r gwasanaeth fel bo angen

PROSES AU PENDERFYNU

Gwneud penderfyniadau sydd ag effaith tymor byr a lleol ar waith y tîm neu ar nifer o gwsmeriaid.

Cydweithio gydag eraill i wneud penderfyniadau sydd ag effaith tymor byr i ganolig ar waith y tîm neu nifer o gwsmeriaid.

Cynnig cyngor i eraill i'w galluogi i wneud penderfyniadau sydd ag effaith tymor byr i ganolig ar waith y tîm neu nifer o gwsmeriaid.

Er enghraifft:

- Gwneud penderfyniadau annibynnol am bwrcasu cyflenwadau anrheolaidd o fewn cyfyngiadau cyllidebol, pa gyfarpar fydd yn bodloni gofynion y gwaith yn y ffordd orau
- Gwneud penderfyniadau gyda phobl eraill gan gynnwys myfyrwyr ac ymchwilwyr i sicrhau bod modd lleihau problemau technegol posibl ac ar sut i gyflenwi modiwlau academaidd i fyfyrwyr
- Cynnig cyngor ar ba gyfarpar neu gyflenwadau i'w gwerthu a phwrcasu cyfarpar newydd ac arbenigol, dyrannu gwariant cyllideb eich maes cyfrifoldeb eich hun, cynllunio cyfarpar ymchwil arbrofol arbenigol

CYNLLUNIO A THREFNU ADNODDAU

Trefnu gwaith ac adnoddau'r tîm gwaith i ddiwallu amcanion a gytunwyd, neu reoli prosiect penodol sy'n galw am gynllunio prosiect manwl.

Ar adegau trefnu gwaith adran neu brosiect ymchwil neu gydweithredol mawr, gan gynnwys rheoli cyllidebau, llwyth gwaith, adnoddau a monitro cynnydd

Er enghraifft:

- Cynllunio eich llwyth gwaith eich hun a'r staff gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r adnoddau i wneud y gwaith ar amser ac o fewn y gyllideb
- Cynllunio adnoddau gofod yn effeithiol ar gyfer staff technegol a defnyddwyr y cyfleusterau technegol a chyfrifiadurol
- Cynllunio gwaith cynnal a chadw rheolaidd y cyfarpar
- Ar adegau cyfranogi mewn gwaith paratoi tymor hir yn yr adran mewn perthynas â datblygiadau technegol

MENTER A DATRYS PROBLEMAU

Datrys problemau lle nad yw'r datrysiad o reidrwydd yn amlwg gan ddefnyddio menter a rhesymu.

Yn aml datrys problemau pan fo'r wybodaeth sydd ar gael yn anghyflawn neu'n gwrthdaro a lle bo gofyn defnyddio menter a chreadigrwydd i ddatblygu'r datrysiad gorau.

Er enghraifft:

- Datrys problemau'n ymwneud â chyfarpar, cyfleusterau a gwasanaethau technegol neu TG gan ymholi i ganfod ffynhonnell y broblem a chymryd camau priodol
- Canfod dulliau amgen o gyflawni amcan os yw'r dulliau confensiynol yn aflwyddiannus
- Cynhyrchu neu addasu cyfarpar i ddiwallu dibenion arbrofol penodol
- Yn aml canfod datrysiadau i broblemau technegol nad ydynt o bosibl wedi'u hwynebu o'r blaen yn y Brifysgol

- Yn aml cyrchu deunyddiau anrheolaidd gan gyflenwyr

DADANSODDI AC YMCHWIL

Dadansoddi data neu wybodaeth reolaidd o ffynonellau safonol gan ddefnyddio gweithdrefnau sy'n bodoli.

Yn aml pennu pa ddull dadansoddi i'w ddefnyddio, adnabod neu ddehongli tueddiadau yn y data a chanfod data neu wybodaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r ymchwiliad.

Er enghraifft:

- Ymgymryd â chwiliadau ar y rhyngwrwyd ac mewn llenyddiaeth i broblemau technegol, canfod cyfarpar newydd, cadw'n gyfredol gyda datblygiadau o ran cyfarpar, technegau, tueddiadau arddangos
- Cynnal arbrofion dadansoddol, prosesu data arbrofol a chrynhoi canlyniadau
- Profi cyfarpar neu ddeunyddiau posibl i weld a ydyn nhw'n addas i'r diben, ac adrodd am y canlyniadau
- Casglu a chrynhoi data ac adrodd ar ddefnydd o'r gwasanaeth e.e. defnydd o'r rhwydwaith, galwadau cymorth ar y safle
- Yn aml cynnal prosiectau ymchwil ar raddfa fach, gan bennu'r fethodoleg fwyaf priodol, crynhoi ac adrodd ar y canlyniadau

GOFYNION SYNHWYRAIDD A CHORFFOROL

Cyflawni tasgau sy'n galw am amrywiaeth o dechnegau neu sgiliau; sydd angen canolbwyntio i gydlynu synhwyrâu gwahanol a thrachywiredd o ran defnydd neu sy'n galw am ymdrech corfforol sylweddol.

Er enghraifft:

- Ymgymryd â gwaith sydd angen canolbwyntio a thrachywiredd gan gynnwys gweithio gyda folteddau uchel, ffynonellau ymbelydredd, paratoi a gweithredu samplau microsgop
- Gweithio gydag offer pŵer, turniau mecanyddol, melinwyr peiriannol, offer weldio
- Atgyweirio offerynnau trachywir fel microsgopau

AMGYLCHEDD GWAITH

Dirnad os yw amgylchedd yn un a allai gael effaith negyddol ar eich gwaith neu waith cydweithwyr a gweithredu, o fewn canllawiau, i leihau unrhyw effaith negyddol, e.e. drwy ddilyn asesiadau risg.

Ar adegau pennu'r lefel o risg mewn amgylchedd penodol a gweithredu i leihau'r perygl posibl neu'r risg drwy bennu'r ymatebion a'r canllawiau priodol.

Er enghraifft:

- Dynodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfarpar a'r cemegau a ddefnyddir, sicrhau bod asesiadau risg wedi'u cynnal a'u dilyn gan staff a myfyrwyr

- Sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio mewn amgylcheddau neu ar gyfer gwaith lle pennir fod hynny'n angenrheidiol

GOFAL BUGEILIOL A LLES

Ymateb yn sensitif i unrhyw rai sydd angen cymorth neu sy'n dangos arwyddion o drallod a chynnwys pobl sydd wedi'u hyfforddi'n berthnasol lle bo'n briodol.

Ar adegau defnyddio gweithdrefnau safonol i ddarparu cyngor ar broblemau lles cyffredin, a chyfeirio at staff sydd wedi derbyn hyfforddiant proffesiynol lle bo'n briodol.

Er enghraifft:

- Ymdrin yn bwylllog ac yn sensitif â staff neu fyfyrwyr wrth ddod ar eu traws yn y gwaith
- Gall fod yn bwynt cyswllt cyntaf i fyfyrwyr a staff sydd â phroblemau, darparu cyngor neu arweiniad lle'n bosibl neu gyfeirio at staff arall sydd wedi'u hyfforddi
- Ar adegau darparu cyngor i staff neu fyfyrwyr ar faterion lles e.e. problemau cyllidol neu bersonol, o fewn gweithdrefnau neu ganllawiau gosodedig
- Ar adegau cynghori ar faterion ariannol neu broblemau personol, gweithdrefnau salwch, absenoldeb, cwyno, disgyblaeth a gweithdrefnau staff eraill, gwybod pryd i gyfeirio'r mater ymlaen

DATBLYGU TÎM

Ar adegau darparu cyngor neu arweiniad i gydweithwyr newydd yn y rôl neu'r tîm ar weithdrefnau a gwybodaeth safonol.

Yn aml hyfforddi neu gyfarwyddo eraill ar dasgau, materion neu weithgareddau penodol ar sail eich gwybodaeth a'ch profiad eich hun.

Ar adegau cynnal hyfforddiant neu weithgareddau datblygu gydag unigolion neu grwpiau, gan gynnwys asesu gallu cyfredol, defnydd o dechnegau hyfforddi priodol, asesu canlyniadau a darparu adborth.

Er enghraifft:

- Ar adegau cyfrannu at hyfforddiant sefydlu aelodau newydd o'r tîm drwy ddangos yr adran iddyn nhw a'u cyflwyno i'r gwaith sydd ganddyn nhw i'w wneud.
- Yn aml cyflwyno neu drefnu hyfforddiant perthnasol i staff i'w galluogi i berfformio eu gwaith pan fo angen a/neu ddarparu arweiniad i staff yn y tîm neu ar weithrediad cyfarpar a gweithdrefnau fel bo angen
- Ar adegau asesu anghenion hyfforddi aelodau o'r tîm a chyflwyno gweithgareddau priodol i ddiwallu'r anghenion, asesu'r effeithiolrwydd a darparu adborth drwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol

CYMORTH ADDYSGU A DYSGU

Cyflwyno deunyddiau addysgu neu hyfforddi i gyflwyno myfyrwyr neu bobl eraill i wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

Cyflwyno deunyddiau dysgu neu hyfforddi i addysgu neu hyfforddi myfyrwyr neu eraill ar dasgau, materion neu weithgareddau penodol ac asesu perfformiad a darparu adborth.

Er enghraifft:

- Dangos sut mae defnyddio cyfarpar a thechnegau yn ddiogel yn y ffordd orau
- Cynorthwyo staff academiaidd gyda gwaith technegol e.e. spectometreg mas
- Cyflwyno myfyrwyr i ddefnyddio cyfarpar neu dechnegau arbenigol
- Cynnal hyfforddiant iechyd a diogelwch gan gynnwys trin â llaw
- Cynnal tiwtorialau mewn maes arbenigol

GWYBODAETH A PHROFIAD

Meddu ar ehangder neu ddyfnder gwybodaeth sy'n ddigonol i weithredu fel pwynt cyfeiriol i bobl eraill, gan ddatblygu gwybodaeth arbenigol neu gyffredinol, sgiliau ac arbenigedd yn barhaus.

Er enghraifft:

- Dangos dealltwriaeth gyflawn o'r ddamcaniaeth a'r ymarfer technegol sy'n gysylltiedig â'r rôl
- Dangos awydd a gallu parhaus i ehangu gwybodaeth i gwmpasu datblygiadau dadansoddol a thechnolegol newydd
- Deall disgyblaethau academiaidd sylfaenol y staff hynny sy'n defnyddio'r cyfleusterau